



18.12.2017

Colin Nosworthy

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Annwyl Colin,

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch cais rhyddid gwybodaeth a dderbyniwyd ar y 13eg o Ragfyr, 2017.

Ymddiheuraf ein bod wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl i ddarparu ateb i'ch cais.

Eich cais

Rydych wedi gofyn am y wybodaeth ganlynol:

Hoffwn dderbyn copi o bob cytundeb rhwng S4C a'r BBC yn ymwneud â throsglwyddo signal darlledu S4C o swyddfa newydd BBC Cymru yng nghanol Caerdydd.

Ein cyfrifoldeb

Mae dyletswydd ar S4C i ymateb i geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "Ddeddf") ar gyfer gwybodaeth sy'n cael ei ddal ar gyfer dibenion ac eithrio newyddiaduraeth, celf neu lenyddiaeth.

Pan yn delio gyda cheisiadau am wybodaeth sy'n cael ei ddal ar gyfer dibenion ac eithrio newyddiaduraeth, celf neu lenyddiaeth, mae cyfrifoldebau S4C yn cynnwys:

- (1) Cadarnhau a yw'r wybodaeth sy'n cael ei geisio ym meddiant S4C; a
- (2) Chyfleu'r wybodaeth y mae'r ymgeisydd wedi gofyn amdano. Mae dyletswydd ar S4C i gyfleu'r wybodaeth lle na fyddai'r gost o gydymffurfio yn debygol o fod yn fwy na'r trothwy o £450.

Mae yna hefyd nifer o eithriadau yn bodoli o dan y Ddeddf sy'n berthnasol i'r cyfrifoldebau hyn.

Cadarnhau

Mae'r wybodaeth yr ydych yn ei geisio wedi ei gynnwys mewn naw dogfen rhwng S4C a'r BBC.

Mae amryw o gytundebau eraill hefyd yn bodoli rhwng S4C a'r BBC sy'n ymwneud â nifer o elfennau eraill y bartneriaeth rhyngom, ond nid yw'r cytundebau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol gyda throsglwyddo signal darlledu S4C o ganolfan newydd BBC Cymru yng nghanol Caerdydd.

Nodaf isod y cytundebau a'r dogfennau sy'n berthnasol i'ch cais ynghyd ag esboniad o gynnwys y dogfennau. Cadarnhaf fod y rhain ym meddiant S4C.

1. Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd rhwng S4C a'r BBC, dyddiedig 9 Tachwedd 2017

Mae'r cytundeb hwn yn nodi ar lefel uchel sut y bydd S4C a'r BBC yn gweithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd dros y ddegawd nesaf er budd cynulleidfaoedd Cymraeg. Mae Adran 8 y Cytundeb yn nodi nifer o egwyddorion a darpariaethau trosgynnol sy'n rhoi arweiniad i'r Cytundeb Gwasanaethau Technegol (gweler 2 isod).

2. Cytundeb Gwasanaethau Technegol rhwng S4C a'r BBC, dyddiedig 9 Tachwedd 2017

Dyma'r cytundeb sy'n nodi'r gwasanaethau technegol darlledu, archif a thechnoleg swyddfa y bydd y BBC yn darparu i S4C yn y ganolfan ddarlledu newydd yn Sgwâr Canolog, ac yng nghyd-destun technoleg swyddfa, yng nghanolfannau eraill S4C. Mae'n disgrifio'r gwasanaethau, sut y byddant yn cael eu darparu a materion ariannol.

3. 3 cytundeb NDA rhwng S4C a'r BBC

Mae S4C a'r BBC wedi llofnodi tri chytundeb NDA ar adegau gwahanol ers 2013 fel rhan o'r broses o gydweithio a datblygu'r opsiynau ar gyfer cydleoli gwasanaethau technoleg darlledu S4C gyda'r BBC yn eu canolfan ddarlledu newydd.

Mae cytundebau NDA o'r fath yma'n safonol mewn trafodion busnes lle mae partïon yn cytuno i rannu gwybodaeth gyda'i gilydd, lle mae'r wybodaeth hynny'n gyfrinachol i'w busnes hwy.

4. Llythyr o Fwriad, dyddiedig 10 Tachwedd 2015 (gan gynnwys Amlinelliad y Gwasanaeth ac Egwyddorion Priso) (3 dogfen)

Mae'r Llythyr o Fwriad rhwng S4C a'r BBC yn nodi bwriad S4C a'r BBC i ddod i gytundeb ar gyfer Cytundeb Gwasanaethau Technegol yn y dyfodol (arwyddwyd y Cytundeb Gwasanaethau Technegol ar 9 Tachwedd 2017 – gweler 2 uchod). Mae'r llythyr yn cynnwys dau atodiad, sy'n amlinellu'r gwasanaethau y bwriedir y bydd y BBC yn eu darparu i S4C yn dilyn cydleoli yn y ganolfan ddarlledu newydd, a'r egwyddorion ar gyfer codi tâl am y gwasanaethau hyn.

Mae'r llythyr a'r Cytundeb Cydweithio'n cynnwys cyfeiriadau at Gytundeb Trosgynnol arfaethedig. Ni luniwyd y cytundeb hwn, gan i'r Cytundeb Gwasanaethau Technegol gyflawni'r gofynion perthnasol.

5. Cytundeb Cydweithio rhwng S4C a'r BBC, dyddiedig Ebrill 2014

Mae'r Cytundeb Cydweithio rhwng S4C a'r BBC yn nodi bwriad S4C a'r BBC i gydweithio gyda'i gilydd ar brosiect canolfan ddarlledu newydd y BBC yng Nghaerdydd, a phrif amcanion ac egwyddorion y prosiect, egwyddorion ar gyfer cydleoli a rheoli'r prosiect, rolau a chyfrifoldebau ac amserlen ddrafft ar gyfer y prosiect.

Cyfleu'r wybodaeth

Nodir isod pa wybodaeth yr ydym yn ei ddarparu i chi ynghyd ag esboniad o'r rhesymau pam fo elfennau o'r wybodaeth wedi ei olygu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

Nodir isod eithriadau perthnasol y Ddeddf ynghyd ag esboniad o bwrpas yr eithriad a'r rhesymau pam y maent yn berthnasol i'r dogfennau amgaaedig.

1. Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd rhwng S4C a'r BBC, dyddiedig 9 Tachwedd 2017

Mae'r Cytundeb Partneriaeth wedi ei gyhoeddi, ac ar gael ar safle we S4C:
http://www.s4c.cymru/media/media_assets/cytundeb-partneriaeth-s4c-bbc.pdf

2. Cytundeb Gwasanaethau Technegol rhwng S4C a'r BBC, dyddiedig 9 Tachwedd 2017;

Ni fyddwn yn rhyddhau'r cytundeb hwn. Rydym o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth yn y cytundeb hwn yn datgelu gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif, ac felly rydym o'r farn ei fod wedi ei eithrio o dan adran 43(2) y Ddeddf. Nodir y rhesymau perthnasol isod.

3. Tri chytundeb NDA rhwng S4C a'r BBC;

Rydym o'r farn y gellir rhyddhau mwyafrif y wybodaeth yn y cytundebau NDA hyn, ond nid yr holl wybodaeth. Mae'r wybodaeth sydd wedi ei olygu yn wybodaeth bersonol am unigolion, sydd wedi ei eithrio o dan adran 40(2) y Ddeddf sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol.

4. Llythyr o Fwriad, dyddiedig 10 Tachwedd 2015 (sy'n cynnwys Amlinelliad y Gwasanaeth ac Egwyddorion Priso)

Rydym o'r farn y gellir rhyddhau mwyafrif y wybodaeth yn y cytundeb hwn ac elfennau o'r ddogfen Egwyddorion Priso, ond nid yr holl wybodaeth.

Rydym o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth sydd wedi ei olygu yn y cytundeb hwn yn datgelu gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif, ac felly rydym o'r farn ei fod wedi ei eithrio o dan adran 43(2) y Ddeddf. Nodir y rhesymau perthnasol isod.

Mae gwybodaeth hefyd wedi ei olygu gan ei fod yn wybodaeth bersonol am unigolion, sydd wedi ei eithrio o dan adran 40(2) y Ddeddf sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol.

Ni fyddwn yn rhyddhau dogfen Amlinelliad y Gwasanaeth i chi ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â materion staffio a gweithredu'r systemau technegol arfaethedig. Yn ystod y misoedd nesaf bydd S4C a'r BBC yn trafod mewn manylder ofynion staffio'r systemau newydd, ac yn cynnal trafodaethau gyda staff perthnasol y ddau gorff. Ni fyddai'n deg i'n staff, neu'n rhesymol i ddatgelu'r wybodaeth hyn ar hyn o bryd, cyn cynnal trafodaethau perthnasol gyda staff. Mae S4C o'r farn ei fod yn hollbwysig i sicrhau fod staff sy'n cael eu heffeithio gan y cynlluniau cydleoli arfaethedig yn cael eu trin yn deg drwy gydol y broses.

Mae adran 22 y Ddeddf yn nodi eithriad ar gyfer gwybodaeth ym meddiant corff cyhoeddus lle y mae bwriad i'w gyhoeddi yn y dyfodol (lle mae'r dyddiad hwnnw eisoes yn wybyddus ai peidio). Mae'r eithriad hwn yn seiliedig ar brawf budd y cyhoedd. Nodir isod ein hasesiad o'r prawf yn yr achos hwn.

Dylid nodi na allwn roi dyddiad pendant ar gyfer cyhoeddi'r wybodaeth hyn ar hyn o bryd, gan ei fod yn ddibynol ar y trafodaethau angenrheidiol gyda'r staff a chwblhau nifer o elfennau o waith paratoi ar gyfer cydleoli'r gwasanaethau technegol.

Noder nad yw'r eithriad hwn yn un absoliwt, ond yn hytrach yn amodol ar brawf budd y cyhoedd. Rydym wedi ystyried hyn yn achos pob elfen sydd wedi ei olygu a lle mae gwybodaeth wedi ei olygu mae hyn oherwydd bod S4C o'r farn, am nifer o resymau, fod budd y cyhoedd yn parhau o blaid defnyddio'r eithriad yn hytrach na chyhoeddi'r wybodaeth.

Rydym wedi ystyried budd y cyhoedd o blaid cyhoeddi'r wybodaeth, gan gynnwys y diddordeb cyhoeddus o ran atebolrwydd a thryloywder cyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, nid ydym o'r farn fod y diddordeb cyffredinol hwn yn trechu'r angen i sicrhau ein bod yn gallu datblygu'r cynlluniau ar gyfer cydleoli'n gwasanaethau gyda'r BBC, gan gynnwys yr angen i drin staff S4C a'r BBC mewn modd teg, gan gynnwys ymgynghori gyda'r staff a'r undebau perthnasol.

Rydym felly o'r farn, yn unol â gofynion adran 2 y Ddeddf, fod budd y cyhoedd o blaid defnyddio'r eithriad yn trechu'r diddordeb cyhoeddus o ran cyhoeddi'r wybodaeth ar hyn o bryd.

5. Cytundeb Cydweithio rhwng S4C a'r BBC, dyddiedig Ebrill 2014;

Rydym o'r farn y gellir rhyddhau mwyafrif y wybodaeth yn y cytundeb hwn, ond nid yr holl wybodaeth.

Rydym o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth sydd wedi ei olygu yn y cytundeb hwn yn datgelu gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif, ac felly rydym o'r farn ei fod wedi ei eithrio o dan adran 43(2) y Ddeddf. Nodir y rhesymau perthnasol isod.

Mae gwybodaeth hefyd wedi ei olygu gan ei fod yn wybodaeth bersonol am unigolion, sydd wedi ei eithrio o dan adran 40(2) y Ddeddf sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol.

Asesiad S4C o ofynion Adrannau 40 a 43 y Ddeddf

Adran 40(2) - Gwybodaeth Bersonol

Mae'r wybodaeth sydd wedi ei olygu yn y dogfennau uchod yn wybodaeth bersonol am unigolion megis aelodau staff S4C neu drydydd partïon. Byddai cyhoeddi gwybodaeth o'r fath yn tramgwyddo gofynion y Ddeddf ac egwyddorion Deddf Gwarchod Data 1998. Ni fyddai'r unigolion perthnasol yn disgwyl i wybodaeth bersonol gael ei ddatgelu'n gyhoeddus. Fe fyddai gwneud hynny'n groes i Egwyddor Gyntaf Diogelu Data, gan na fyddai'n deg i'r unigolion perthnasol.

Mae'r eithriad hwn yn eithriad absoliwt, ac nid yw'n amodol ar brawf budd y cyhoedd.

Adran 43 - Buddiannau masnachol

Rydym wedi golygu elfennau o'r wybodaeth yn y dogfennau uchod yn sgîl adran 43(2) y Ddeddf - rhagfarnu buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n dal y wybodaeth). Mae yna nifer o resymau am ddefnydd o'r eithriad sy'n dibynnu ar natur y wybodaeth. Rydym o'r farn y byddai cyhoeddi'r wybodaeth berthnasol yn debygol o ragfarnu buddiannau masnachol S4C, y BBC yn ogystal â darparwyr gwasanaethau, a darpar ddarparwyr i S4C neu'r BBC.

Rydym o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth yn datgelu gwybodaeth fasnachol sensitif am negydiad S4C ar gyfer gwasanaethau technegol, ac felly rydym o'r farn fod y wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 43(2) y Ddeddf.

Byddai rhyddhau'r cyfryw wybodaeth yn arwain at ddatgelu manylion y trefniant y mae'r BBC ac S4C wedi ei negydu, sydd hefyd yn cynnwys manylion am drefniadau gyda thrydydd partïon a chyflenwyr. Rydym o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth yn arwain at sefyllfa lle y byddai hyn yn amharu ar allu S4C i negydu cytundebau cystadleuol yn y dyfodol.

Noder nad yw'r eithriad hwn yn un absoliwt, ond yn hytrach mae'n amodol ar brawf budd y cyhoedd. Rydym wedi ystyried hyn yn achos pob elfen sydd wedi ei olygu a lle mae gwybodaeth wedi ei olygu mae hyn oherwydd bod S4C o'r farn, am nifer o resymau, fod budd y cyhoedd yn parhau o blaid defnyddio'r eithriad yn hytrach na chyhoeddi'r wybodaeth.

Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd budd i'r cyhoedd o ran tryloywder atebolrwydd arian cyhoeddus S4C a sicrhau fod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian priodol, a sicrhau fod prosesau caffael S4C yn cael eu cynnal mewn modd agored a theg.

Rhoddyd ystyriaeth yn ogystal i ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r eithriad yng nghydestun budd y cyhoedd. Wrth drafod ac yna cytundebu ar gyfer darparu gwasanaethau i S4C, mae cwmnïau'n darparu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol. Mae'r gallu i barhau i gynnal trafodaethau o'r fath yn bwysig er mwyn caniatáu i S4C sicrhau'r gwerth am arian gorau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Gallai datgelu gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif llesteirio gallu S4C i sicrhau'r trefniadau a gwerth am arian gorau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau

yn y dyfodol. Ni fyddai sefyllfa o'r fath, pe byddai'n arwain at lesteirio gallu S4C i sicrhau'r trefniadau masnachol gorau posibl o fudd i'r cyhoedd yn y pen draw.

Yn dilyn ystyried y ffactorau uchod a gofynion adran 2 y Ddeddf, rydym o'r farn, yn achos pob golygiad, fod budd y cyhoedd o blaid defnyddio'r eithriad yn fwy na budd y cyhoedd o ran darparu'r wybodaeth.

Adolygiad

Os nad ydych yn fodlon gyda'r modd y deliwyd gyda'ch cais, fe allwch gyfeirio'r mater i Bwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth Awdurdod S4C o fewn 21 diwrnod ar gyfer adolygiad mewnol.

Os nad ydych yn fodlon gyda chanlyniad adolygiad y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth, gallwch gyfeirio'r mater ar gyfer apêl i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Caer
SK9 5AF

Yn gywir

Phil Williams
Ysgrifennydd Awdurdod S4C